


## Gwersyll yr Urdd Llangrannog

Pob dymuniad da i ddisgyblion blynyddoedd 5 a 6 sy'n mynd i Wersyll yr Urdd Llangrannog wythnos hon. Mae'r holl fanylion eisoes wedi eu rhannu gyda rhieni a gwarcheidwaid trwy lythyron ac e-byst.

Os oes gennych unrhyw gwestiynau neu bryderon am y daith yn ystod y tridiau cysylltwch â ni yn yr ysgol yn syth os gwelwch yn dda.

## *Llangrannog Urdd Centre*

*Best wishes to the pupils of years 5 and 6 who are going to the Llangrannog Urdd Centre this week. Details have already been shared with parents and guardians via letters and e-mails.*

*If you have any questions or concerns about the trip during the three days please contact us at the school immediately.*

---



## Rhaglen yr Eisteddfod Ddawns

Cynhelir yr Eisteddfod Ddawns ddydd Mawrth yma ($1^{af}$ o Ebrill) yn Ysgol Bro Teifi.

Rydym wedi trefnu bws i gludo'r dawnswyr draw o Wersyll Llangrannog i Ysgol Bro Teifi yn y bore. Mi ddylent gyrraedd am 9:15yb, gyda'r Eisteddfod yn cychwyn am 9:30yb. Mae bws ar wahân yn cludo'r dawnswyr gwerin o'r ysgol am 8:20yb

Dyma ddolen i raglen y dydd:
🖰 **Eisteddfod Ddawns**

## *Dance Eisteddfod Programme*

*The Dance Eisteddfod will be held this Tuesday (1st of April) at Ysgol Bro Teifi.*

*We have arranged a bus to take the dancers over from Gwersyll Llangrannog to Ysgol Bro Teifi in the morning. They should arrive at 9:15am, with the Eisteddfod starting at 9:30am. There is a separate bus transporting the folk dancers leaving the school at 8:20am*

*Here is a link to the day's programme:*
🖰 **Eisteddfod Ddawns**

---



## Twrnamaint Pêl-droed yr Urdd

Ar ddydd Iau y 3ydd o Ebrill bydd twrnamaint pêl-droed yr Urdd yn cael ei chynnal. Bydd y chwaraewyr i gyd yn derbyn crysau cit pêl-droed gyda ni, ond fydd angen iddynt hefyd ddod â:

- Sanau a siorts du
- Dillad cynnes i wisgo pan nad ydynt yn chwarae
- Pecyn bwyd a diodydd
- Arian – fel arfer mae fan hufen iâ ac ati yno – byddai £3 yn fwy na digon.
- Eli haul – mae'r tywydd i fod yn heulog

## *Urdd football tournament*

*On Thursday the $3^{rd}$ of April the Urdd football tournament will be held. All players will receive football kit shirts with us, but they will also need to bring:*

- *Black socks and shorts*
- *Warm clothes to wear when they're not playing*
- *Packed lunch and drinks*
- *Money – there's usually an ice cream van there – £3 will be enough*
- *Sunscreen – the weather is forecasted to be sunny*

---

**C.Rh.A**
**P.T.A**


## Cymdeithas Rhieni ac Athrawon

Ry’n ni’n parhau i ddiolch i’r G.Rh.A am eu gwaith yn trefnu gweithgareddau difyr i’r disgyblion ac i chi rieni. Y weithgaredd ddiweddaraf oedd y Noson Ffilm – llwyddwyd i wneud elw o £217 – diolch i bawb a ddaeth i gefnogi. Bydd mwy o weithgareddau yn cael eu trefnu ar gyfer tymor yr haf.

## *Parent and Teacher Association*

*We continue to thank the P.T.A for their work in organising interesting activities for the pupils and for you parents. The most recent activity was the Film Night - we managed to make a profit of £217 - thanks to everyone who came to support. More activities will be organised for the summer term.*

---



## Calendr Hanner Tymor

Mae Calendr Hanner Tymor newydd wedi’i greu: dyma’r ddolen i’r 🖱 Calendr Hanner Tymor ar gyfer yr hanner tymor hwn.
Mae dolen i’r calendr yn cael ei chynnwys ym mhob llythyr, ac mae’n byw yn barhaol ar wefan yr ysgol.

## *Half term Calendar*

*A new half term calendar has been created. Here is the link to the 🖱 Half Term Calendar*

*A link to the calendar is included in each letter, and it lives permanently on the school's website.*

---

**Os oes gennych unrhyw bryderon am les neu ddatblygiad addysgol eich plentyn yna cysylltwch â mi ar unwaith.**

***If you have any concerns about your child's welfare or educational development, then please contact me immediately.***

**Yn gywir,**
**Gareth L James**
**Pennaeth Dros Dro / *Acting Headteacher***
**28/03/2025**
🖱 www.ysgolgymraeg.cymru

@YrYsgolGymraeg

Yr Ysgol Gymraeg, Coedlan Plascrug, Aberystwyth, Ceredigion SY231HL
swyddfa@ysgolgymraeg.ceredigion.sch.uk
Pennaeth Dros Dro / *Acting Headteacher:* Mr Gareth L James

01970 617613